# Helfa Falwod





**Ewch allan i'r ardd i helpu gwyddonwyr i ddod o hyd i falwod 'estron'!**

Cymrwch ran yn yr astudiaeth amgylcheddol pwsig hwn.

**Gall unrhyw un gymryd rhan!**

Nid yw'r falwoden 'estron' yn beryglus. Mae gwyddonwyr yn ei galw'n falwoden 'estron' am nad malwoden o Brydain yw hi go iawn. Mae'n gyffredin mewn gwledydd fel Sbaen a'r Eidal. Gwelwyd yr un gyntaf ym Mhrydain yn Nyfnaint ym 1950.

## Sut ddaeth hi yma?

Efallai ei bod wedi hwylio i Brydain ar ddamwain, wedi'i chuddio ymhlith rhyw blanhigion! Ond does neb yn gwybod yn iawn. Gobeithio y gallwn ni ddysgu sut mae'r newid yn y tymheredd yn effeithio ar y bwystfilod bach sydd yn ein gerddi.
I weld pa mor bell mae'r 'estroniaid' wedi cyrraedd ewch i'r map malwod yn: **www.amgueddfacymru.ac.uk/scan**




# Cymrwch ran!

- Defnyddiwch y llyfryn malwod hwn i chwilio am falwod.
- Nodwch eich darganfyddiadau ar y ffurflen isod.
- Ewch i'n gwefan i roi gwybod i ni am eich canfyddiadau chi: **www.amgueddfacymru.ac.uk/scan**
- Byddwn yn eich gwobrwyo â Thystysgrif Gwyddonydd Gwych!






Enw: ..............................................................

Cyfeiriad: ........................................................

Cod Post: ........................................................

Cyfeirnod grid: ................................................

e-bost: ............................................................

| | Nifer wedi ei ffeindio |
|---|---|
| Malwoden Gyffredin | |
| Malwoden Resog | |
| Malwoden Wydr | |
| Malwoden Fefus | |
| Malwoden 'Estron' | |

SCAN
Addysg ar gyfer Datblygiad Cynaliadwy

national museum wales
amgueddfa cymru

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

# Dechreuwch Yma

**Edrychwch ar y gragen.**
**Ydy hi'n llai na'r darn pum ceiniog?**



Nac / Ydy

**Edrychwch ar y patrwm ar y gragen.**
**A yw'n edrych fel hyn?**

Ydy





**Malwoden gyffredin**
*Helix aspersa*
Lliwiau: Brown, llwyd a melyn

Nifer wedi ei ffeindio

Nac / Ydy

**Edrychwch ar y patrwm ar y gragen.**
**Oes ganddi streipiau fel y rhain?**

Nac / Oes → **Nôl i'r Dechrau**



Un rhes



Llawer o resi



Neu dim rhesi o gwbwl fel hyn?

Oes



**Malwoden resog**
*Rhywogaeth Cepaea*
Lliwiau: Melyn, oren, brown neu binc.

Nifer wedi ei ffeindio



Ydy / Ydy

**Edrychwch ar y gragen.**
**A yw'n sgleiniog iawn fel hyn?**



Golwg o'r top



Golwg o'r ochr



Golwg o'r gwaelod

Twll fel 'botwm bol'



**Malwoden wydr**
*Rhywogaeth Oxychilus*
Lliwiau: Melyn, llwyd, mefus neu frown.

Nifer wedi ei ffeindio

Nac / Ydy

**Edrychwch ar waelod y gragen.**
**A oes ganddi dwll fel 'botwm bol'?**

Oes



Golwg o'r top



Golwg o'r ochr
(ddim yn rhy sgleiniog)



Golwg o'r gwaelod



**Malwoden fefus**
*Trichia striolata*
Lliwiau: Melyn, llwyd, mefus neu frown.

Nifer wedi ei ffeindio

Nac Oes



# Helfa Falwod

**Chwiliwch yn ofalus!**
Gall malwod guddio o dan ddail, boncyffion a llefydd tywyll, llaith eraill...




**Edrychwch ar y darlun o ochr y gragen.**
**A yw'n bigfain fel hyn?**

Nac / Ydy → **Nôl i'r Dechrau**

Ydy

Nifer wedi ei ffeindio



Golwg o'r top



Golwg o'r ochr

Rimin o gwpas ei chanol



Golwg o'r gwaelod

Heb dwll fel 'botwm bol'



Derek Rands

**Malwoden 'Estron'**
*Hygromia cinctella*

Lliwiau: brown, oren, llwyd ac wethiau gyda rhai smotiau

Edrychwch yn ofalus ar eich malwoden!
Os nad yw eich malwoden yn cyfateb i falwoden wydrog, mefusog neu 'estron', mae'n bosibl fod gennych malwoden 'gyffredin' neu 'rimynnog' ifanc.

**Os dewch o hyd i un 'Estron'!**

1) Chwiliwch am gragen wag, yna lapiwch hi mewn hances bapur a'i gosod mewn twb margarin bach gwag.
2) Nodwch beth wnaethoch ei ddarganfod ar flaen y daflen hon.
3) Rhowch hi mewn amlen ac ysgrifennwch 'Gofal' arni.
4) Anfonwch at: Helfa Falwod
Addysg
Amgueddfa ac Oriel Genedlaethol Caerdydd
Parc Cathays
Caerdydd CF10 3NP

I gael rhagor o gopïau ac adnoddau ewch i:
www.amgueddfacymru.ac.uk/scan
(029) 2057 3304
scan@amgueddfacymru.ac.uk

Argraffwyd ar bapur wedi ei ailgylchu